# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion Cyfarfod Arbennig anghysbell a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf, 2021,

Mae'r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Y Cynghorydd Ms. R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr S.J. Griffiths, N.P. Hodges, T.H. Jarvie, Mrs. J.M. Norman, Mrs. S.D. Perkes, L.O. Rowlands a N.C. Thomas.

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) a Mrs. J. Lynch-Wilson (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd).

Sylwedydd Di-bleidlais: Mr. I. Cramb (Fforwm Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio)l. Dr. I.J. Johnson a E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio).

## 276 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn:

“A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 277 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Cynghorwyr A.C. Parker a Mr. H. Gapper (Addysg Gymraeg).

## 278 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

## 279 GALW I MEWN Y CYNGHORYDD DR. I.J. JOHNSON - YSTYRIAETH O'R YMATEBION I YMGYNGHORIAD Y CELFYDDYDAU, AC ARGYMHELLION WEDI HYNNY – CABINET: 21 MEHEFIN, 2021 (RHIF. C599) –

Roedd y Cynghorydd Dr Johnson, nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor, wedi gofyn am alw'r adroddiad (a ystyriwyd gan y Cabinet ar 21 Mehefin, 2021) i mewn i'w ystyried am y rheswm mai "Prin y gellir adnabod cyd-destun gwreiddiol yr Ymgynghoriad

Celfyddydau yn gynnar yn 2020" a dylai'r adroddiad "gael ei drafod gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant er mwyn i’r swyddogion allu
pennu opsiynau a materion perthnasol yn well gan Aelodau etholedig a phartïon â diddordeb
cyn iddynt lunio adroddiad opsiynau".

Wrth gyflwyno'r cais am alw i mewn, amlinellodd y Cynghorydd Dr Johnson gyd-destun yr Ymgynghoriad Celfyddydau gwreiddiol ym mis Mawrth 2020, a'r rheswm y galwodd i mewn adroddiad 21 Mehefin i’r Cabinet. Tynnodd sylw at bwysigrwydd cynnwys a chlywed meddyliau'r Pwyllgor, y cyhoedd ehangach a'r rhai sy'n ymwneud â'r Celfyddydau ar ddechrau datblygu arfarniad opsiynau yn hytrach nag yn ddiweddarach yn y broses. Nododd y Cynghorydd Dr Johnson nifer o newidiadau cyd-destunol ers i ymgynghoriad gwreiddiol y Strategaeth Gelfyddydau gael ei gynnal, gan gydnabod ei fod wedi digwydd cyn dechrau pandemig COVID-19 a chyn i'r Cyngor gymryd awenau Pafiliwn Pier Penarth.

Aeth y Cynghorydd Dr Johnson ymlaen i dynnu sylw at sawl pwynt yr oedd am eu codi:

- Casglwyd canlyniadau'r ymgynghoriad gwreiddiol ym mis Ebrill 2020 ond roedd wedi cymryd blwyddyn a chwarter i gyflwyno adroddiad ar y mater i'r Cabinet.
- Crëwyd cronfa newydd ar gyfer y Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd, ac roedd eisiau deall mwy am nodau ac amcanion hyn.
- Gofynnodd a ellid darparu diweddariad ynghylch recriwtio staff ar gyfer Pafiliwn Pier Penarth;
- Ym mis Chwefror 2020 trafododd y Cyngor Llawn gynigion ynghylch hanes a threftadaeth a chytunwyd y câi hyn ei gynnwys yn Strategaeth y Celfyddydau tua’r dyfodol, ond teimlai nad oedd hyn wedi'i gynnwys yn adroddiad diweddaraf y Cabinet;

Yn dilyn hyn, gwahoddodd y Cadeirydd Bennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau i annerch y Pwyllgor a gellid crynhoi ei ymateb fel a ganlyn:

- Roedd amserlen cyflwyno’r adroddiad i'r Cabinet yn adlewyrchu realiti'r effaith a gafodd COVID-19 ar y Gyfarwyddiaeth;
- O ran Pafiliwn Pier Penarth, daeth y cyfleuster i ddwylo'r Cyngor yn ystod y pandemig, a chredwyd ei bod yn briodol dod ag ef i'r Gyfarwyddiaeth o ystyried trafodaethau blaenorol ynghylch cefnogi'r Celfyddydau. Hysbysebwyd swydd Rheolwr y Pafiliwn, ac roedd unigolyn â phrofiad o werthu a marchnata, cynnal digwyddiadau a'r Celfyddydau i fod i ddechrau'r rôl ym mis Awst;
- Crëwyd cronfa'r Celfyddydau a Diwylliant yn dilyn adborth yn dweud bod angen buddsoddi yn yr Oriel Gelf Ganolog a'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd;
- Roedd y Pafiliwn wedi darparu cyfleoedd i brofi awgrymiadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad, er enghraifft gweithgareddau cynhyrchu incwm, ac roedd hyn wedi darparu llwybrau clir i ddod â ffrydiau refeniw rheolaidd i bob oriel gan gynnwys yr Oriel Gelf Ganolog;
- Byddai gofod gwneuthurwyr yn cael ei sefydlu ym Mhenarth yr haf hwn a'r bwriad oedd bod yn arllwysfa ar gyfer Celfyddydau’r 21$^{ain}$ Ganrif;

- Roedd y Gyfarwyddiaeth yn bwriadu cynnal arfarniad opsiynau ond ni wneid hyn ar ei ben ei hun.  Bu’r sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd ar gyfer y cyfarfod hwn a thrafodaethau blaenorol gan y Pwyllgor Craffu yn ddefnyddiol, ac roedd gwaith i'w wneud o hyd o ran penderfynu sut y byddai'r modelau gweithredu posibl yn edrych;
- Ar ôl caffael y Pafiliwn, roedd grwpiau cymunedol newydd hefyd yn cael eu cynnwys, gan ddarparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer adborth.  Unwaith y byddai’r arfarniad opsiynau wedi'i gwblhau, byddai'n destun y broses ymgynghori arferol;
- Roedd Gŵyl Gerdd Penarth wedi rhoi cyfle i brofi digwyddiadau cerddoriaeth fyw ac wedi gweithio'n dda, ac roedd trafodaethau’n mynd rhagddynt i nodi pa seilwaith byddai ei angen yn yr Oriel Gelf Ganolog i ddarparu ar gyfer digwyddiad tebyg;
- Roedd arddangosfeydd digidol wedi'u cynnal yn ystod y pandemig ac roedd yr arddangosfeydd bellach ar ffurf ffisegol yn yr Oriel Gelf Ganolog;
- Roedd ehangu mynediad at y Celfyddydau yn uchel ar yr agenda, yn enwedig yng nghyd-destun COVID-19 a'r Celfyddydau fel arllwysfa ar gyfer lles. Cyflwynwyd cynlluniau peilot ar gyfer digwyddiadau llyfrgell i'r Pafiliwn gyda'r bwriad o ddod â theuluoedd i mewn, ac roedd rhaglenni gwaith ar gyfer digwyddiadau profi tebyg yn y Pafiliwn ac yn yr Oriel Gelf Ganolog;
- Byddai materion sy'n ymwneud â threftadaeth yn cael eu hadlewyrchu yn yr arfarniad opsiynau yn y dyfodol.

Yn dilyn ymateb y Swyddog, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, gyda chaniatâd i siarad, fod y Swyddog wedi tanosod effaith COVID-19 ar y Gyfarwyddiaeth ac amseriad yr adroddiad, ac roedd cyfiawnhad dros yr oedi. Parhaodd yr Aelod Cabinet drwy bwysleisio bod argymhellion y Cabinet yn adlewyrchu mai adroddiad ymgynghori oedd yr adroddiad a'r cam nesaf fyddai datblygu arfarniad opsiynau a fyddai'n dod yn ôl i'r Cabinet ac i’r pwyllgorau Craffu i'w drafod ymhellach.  Bu’n fuddiol cael profiad yr ymgynghoriad a sut roedd bywyd ar ôl y pandemig yn edrych, a nododd yr Aelod Cabinet fod y profiad a gafwyd hyd yma gyda'r Pafiliwn yn dangos bod y Celfyddydau'n cael eu croesawu pan fônt yn hygyrch.

Wedyn gwahoddodd y Cadeirydd yr aelod o'r cyhoedd a oedd wedi cofrestru i siarad i annerch y Pwyllgor.

Dywedodd Mr Dennis Clarke, Cadeirydd Cyfeillion yr Oriel Gelf Ganolog (ACF), fod trafodaethau ar y mater hwn wedi dechrau yn 2019 mewn ymateb i'r bwriad o gau’r Oriel Gelf Ganolog, ac roedd yn falch o nodi bod yr adroddiad bellach yn cyfeirio'n gyson at y Celfyddydau yn y lluosog.  Roedd Cyfeillion yr Oriel Gelf Ganolog a grwpiau perthnasol eraill eisiau gweld rhaglen o ddigwyddiadau a oedd yn dathlu'r sbectrwm o Gelfyddydau sydd ar gael ym Mro Morgannwg, gan gynnwys tiwtora artistiaid ifainc a phlant ysgol.  Roedd Pafiliwn Pier Penarth wedi dod i ystyriaeth ers 2019, ac roedd ACF eisiau i hyn fod yn wers i’w dysgu er mwyn osgoi methiannau blaenorol y Pafiliwn yn y dyfodol.  Y tu hwnt i'r Oriel Gelf Ganolog a'r Pafiliwn, roedd gan weddill y Fro lawer i'w gyfrannu ac mae angen ei gynnwys mewn unrhyw gynlluniau sy'n cael eu datblygu.  Nododd Mr Clarke fod nod cyffredin o estyn dysgu, y Celfyddydau a diwylliant yn y Fro a chaniatáu i fwy o drigolion y Fro elwa o hyn, er mwyn integreiddio’r Celfyddydau a diwylliant yn fwy mewn addysg a gweld diwylliant

Celfyddydau mwy bywiog a chynaliadwy yn y Fro a fyddai yn ei dro o fudd i dwristiaeth. Y cwestiwn o hyd oedd a oes gan y Fro yr uchelgais i gyflawni'r nod hwn, ac awgrymodd Mr Clarke fod angen corff annibynnol o gynrychiolwyr priodol i fwrw ymlaen â hyn o dan oruchwyliaeth y Cyngor.

Gan na chododd y Pwyllgor unrhyw bwyntiau eglurhaol, diolchodd y Cadeirydd i Mr Clarke am ei amser a chyfeiriodd at y ddau sylw ysgrifenedig a gyflwynwyd gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd y sylwadau wedi'u dosbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod ac roeddent ar gael ar wefan y Cyngor ochr yn ochr ag agenda'r cyfarfod.

Mewn ymateb i sylw Mr Clarke, dywedodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau ei fod yn cytuno â phopeth roedd y siaradwr wedi'i ddweud. Dywedodd y Swyddog ymhellach fod Bro Morgannwg yn uchelgeisiol, gan nodi bod cwmni masnachu awdurdod lleol newydd ei sefydlu wedi dychwelyd £500k i ysgolion, roedd trosiant y Pafiliwn a'i gaffi dros £70,000 ers ei lansio, ac roedd ysgolion wedi bod yn rhan o'r gwaith yno gydag un ysgol yn ennill gwobr dreftadaeth. Cytunodd hefyd fod angen ystyried y Fro ehangach gyda llawer o siopau a lleoliadau ar gael i'w defnyddio, ac o safbwynt addysg goruchwyliodd y Swyddog Brosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif, ac felly roedd yn gwybod am yr amgylcheddau sydd ar gael i'w defnyddio drwy'r cynllun hwn.

Dywedodd y Swyddog hefyd y byddai sut y mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio gyda sefydliadau allanol yn y dyfodol yn rhan o'r adolygiad sydd ar y gweill, a bod datblygu cwricwlwm y Celfyddydau yn cael ei adlewyrchu mewn addysg.

Yn dilyn hynny, gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan yr Aelodau a gellid crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Hodges at adroddiad ymgynghori 2020, a awgrymodd ffynonellau cyllid ar gyfer amgueddfa yn y Barri, a holodd a oedd unrhyw waith wedi mynd rhagddo yn y maes hwn ac a fyddai'r Cyngor yn ceisio chwilio am ffynonellau cyllid eraill i gefnogi hyn. Dywedodd hefyd na fyddai arddangosfeydd cyfnod byr yn gweithio mor effeithiol â sefydliadau mwy parhaol.
- Cofiodd y Cynghorydd N. Thomas fod y trafodaethau ynghylch amgueddfa yn y Barri wedi ehangu i gynnwys trafod angen amgueddfa ar raddfa y sir gyfan, a'r defnydd o ofod cyhoeddus a phreifat ledled y Fro ar gyfer arddangosfeydd cyfnod byr. Tynnodd sylw at y ffaith bod y Celfyddydau'n cwmpasu perfformiad a Chelf stryd yn ogystal â dehongliadau mwy traddodiadol, a bod gan y Fro eisoes leoliadau llwyddiannus fel y Pafiliwn. Roedd y Cynghorydd Thomas o'r farn mai cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol oedd cefnogi'r mannau hyn a chroesawodd y camau nesaf.
- Roedd y Cynghorydd Mrs Perkes yn falch o glywed am lwyddiant y Pafiliwn a'r cynhyrchiant incwm a gyflawnwyd gan y Cwmni Arlwyo Big Fresh. Roedd hi'n dymuno gweld rhywbeth tebyg i Ganolfan Gelfyddydau Chapter yng Nghaerdydd sy'n cwmpasu sawl agwedd ar y Celfyddydau ac yn denu demograffeg ehangach, ac o ystyried llwyddiant y Pafiliwn hyd yma, holodd a fyddai'r profiad a enillwyd yno yn cael ei ddefnyddio yng nghyd-destun yr Oriel Gelf Ganolog.

- Dywedodd Mrs Lynch-Wilson fod ysgolion wedi colli cael ymwelwyr o feysydd artistig, a phwysleisiodd fod angen i'r Fro fod yn uchelgeisiol a gwerthu ei hun yn ddigonol.
- Mynegodd y Cynghorydd Mrs Norman ei barn bod y Celfyddydau wedi bod yn elitaidd yn y gorffennol, ac roedd yn bwysig sicrhau eu bod yn agored ac yn hygyrch i bob haen yn y gymdeithas yn y dyfodol a bod pawb yn cael y cyfle a'r cyfleuster i fynegi eu hunain.
- Roedd Dr Price wedi gweithio'n helaeth yn helpu Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill i greu mentrau cymdeithasol, a dywedodd yr hoffai helpu pe bai unrhyw beth y gallai ei wneud. Nododd bwysigrwydd gwneud elw o'r lleoliadau hyn a'r gweithgareddau ynddynt, a bod cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau Celfyddydol ledled y Fro, a bod angen cynnwyd y rhai mewn lleoliadau yn ngorllewin y Fro hefyd yn y strategaeth.

Cydnabu'r Cadeirydd ei bod yn bwysig sicrhau bod cymuned Gelfyddydol fywiog yn y Fro, yn cwmpasu pob math o Gelfyddyd.

Mewn ymateb i ymholiadau a godwyd ynghylch demograffeg y rhai sy'n defnyddio'r Pafiliwn, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, gyda chaniatâd i siarad, fod y defnyddwyr wedi bod yn amrywiol. O ran cynhyrchu incwm, cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at y syniad o elw gyda phwrpas, a bod angen creu gwarged gan mai dyma'r unig ffordd o ddiogelu lleoliadau i'r cyhoedd yn y dyfodol.

Gwahoddodd y Cadeirydd Bennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau i wneud sylwadau pellach a gellid crynhoi ei ymateb fel a ganlyn:

- Uchelgais y Gyfarwyddiaeth oedd datblygu ecosystem o amgylch y Celfyddydau gyda ffrydiau refeniw, amrywiaeth, amrywioldeb yn yr hyn a gyflwynir ac ym mhle, ac ehangu mynediad;
- Byddai gweithio mewn partneriaeth ag unigolion a sefydliadau eraill mwy gwybodus yn rhan allweddol o'r broses hon;
- Roedd yn amlwg bod angen i'r Fro werthu a hyrwyddo ei hun yn well;
- Oherwydd COVID-19 bu'n ofynnol i'r Gyfarwyddiaeth weithio'n gyflym ac yn ddwys gydag eraill ar draws y Cyngor er mwyn dod â'r lleoliadau dan drafodaeth yn ôl ar waith, ac roedd hyn yn golygu bod trafodaethau eisoes wedi'u cynnal ynghylch materion fel sianeli cyfryngau cymdeithasol pwrpasol a gwefannau;
- Roedd gwneud cais am gyllid a dod o hyd i ffrydiau refeniw newydd yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen ac roedd yn rhan o'r cynllun strategol, gyda rhai ceisiadau wedi'u cymeradwyo fel rhan o raglen 'Haf o Hwyl' y Cyngor;
- Y bwriad oedd cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn nhymor yr hydref, yn amodol ar unrhyw ddatblygiadau o ganlyniad i COVID-19 a allai effeithio ar y Gyfarwyddiaeth.

Yn dilyn hynny, gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Dr Johnson a oedd am wneud unrhyw sylwadau yn dilyn y drafodaeth, a diolchodd y Cynghorydd Dr Johnson i Bennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau am ei ymatebion. Tynnodd sylw at y ffaith bod angen i'r Cyngor ystyried ei gyfrifoldeb o ran ecosystem ehangach o sefydliadau, lleoliadau ac arddulliau Celf ledled y Fro, ac y byddai angen trafodaeth ynghylch cyllid, gan gyfeirio at gyllid Cyngor Celfyddydau Cymru a'r nifer

gymharol fach o grantiau sydd wedi eu cael o'r ffynhonnell hon o'r blaen. Cydnabu'r Cynghorydd Dr Johnson bwysigrwydd rôl y cwricwlwm, ond hefyd dywedodd fod Celf ar gyfer pobl o bob oed a gallu, ac na ddylid ei weld drwy lens addysg yn unig. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod yr Oriel Gelf Ganolog yng nghanol tref sy'n cael cyllid Cymunedau yn Gyntaf ac felly dylai fod yn flaenoriaeth o ran ehangu mynediad.

Gan fod yr Aelodau wedi ystyried yr adroddiad a'r sylwadau a ddaeth i law yn llawn, fe'i

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo penderfyniadau'r Cabinet ar 21 Mehefin, 2021.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.